

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Crynodeb Ymchwil Tai

Archwiliad Ymchwil Tai i Gymru

Cyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddod i rym ym mis Gorffennaf 1999 roedd pryder y byddai arno angen tystiolaeth ddigonol i ddatblygu ei Strategaeth Tai Cenedlaethol ac na fyddai'r adnoddau na'r mecanweithiau ar gyfer cynnal, comisiynu nac ariannu ymchwil ac arfer da yng Nghymru, yn ddigonol ar gyfer yr oes newydd hon. Er mwyn dysgu mwy am yr ystod o ymchwil tai sydd ar y gweill yng Nghymru, er mwyn casglu sylwadau ymarferwyr ym maes tai ar yr ymchwil y mae angen ei chwblhau yn y dyfodol, ac i gymryd cyngor ar y ffordd orau o gyflawni hyn, gofynnodd y Swyddfa Gymreig i Brifysgol Caerdydd a Sefydliad Siartredig Tai yng Nghymru gynnal archwiliad o'r ymchwil i dai sy'n cael ei chynnal yng Nghymru. Darganfu'r archwilwyr:

- **Ddiffyg dealltwriaeth clir o'r cyd-destun Cymreig wrth lunio a gweithredu polisiau ynghyd â diffyg gwerthuso polisiau a chynlluniau blaenorol.**
- **Cynhelir amrywiaeth eang o ymchwil i faes tai gan nifer o gyrff gwahanol yng Nghymru, ond cynhelir y rhan fwyaf ohono'n fewnol ar raddfa fechan ac nid yw'n cael ei ledaenu.**
- **Nifer fechan yn unig o awdurdodau lleol a chyrrff lletya sy'n cyflogi staff ymchwil ymroddedig ac mae arian ar gyfer ymchwil yn gyfyngedig iawn.**
- **Mae angen rhagor o weithgaredd a thystiolaeth ymchwil ar y Cynulliad i fynd i'r afael â themâu trawsffiniol megis ethrio cymdeithasol a chynaliadwyedd.**

Yr Archwiliad

Comisiynwyd y Ganolfan Rheoli a Datblygu Tai ym Mhrifysgol Caerdydd a Sefydliad Siartredig Tai yng Nghymru i gynnal archwiliad o'r ymchwil i dai yng Nghymru. Ymysg ei nodau roedd ystyried ymchwil tai ddiweddar a pharhaus yng Nghymru; adnabod safbwyntiau ar feysydd ymchwil allweddol; archwilio i fylchau amlwg mewn gwybodaeth; rhoi golwg fanwl ar adnoddau i gynnal ymchwil tai yng Nghymru ac ystyried i ba raddau y defnyddir canlyniadau'r ymchwil wrth lunio a gweithredu ar bolisiau yng Nghymru.

Roedd pedwar cam i'r archwiliad sef:-

Cyfweliadau wyneb-yn-wyneb ag aelodau Fforwm Ymgynghorol Tai yng Nghymru;

Cyfweliadau ar y ffôn gydag uwchswyddogion tai mewn awdurdodau lleol yng Nghymru a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig;

Arolwg post o sefydliadau eraill yn ymwneud â thai, cyrff ariannu ymchwil, ymgynghorwyr ac academyddion;

Astudiaethau achos mewn tri awdurdod lleol i archwilio'r cysylltiadau ymchwil rhwng cyrff lletya a gwasanaethau a chyrrff eraill.

Diffiniwyd ymchwil yn y termau mwyaf eang gan gynnwys gwerthuso polisi ac arfer, casglu a monitro data ystadegol, gwerthuso'r modd y gallai newidiadau a ragwelir arwain at newidiadau polisi, canllawiau yn glŷn ag arfer da ac ymchwil academiaidd.

Ymchwil ar y gweill

Dengys yr archwiliad bod sawl gwedd i ymchwil ym maes tai yng Nghymru, a bod ymchwil yn cael ei chynnal gan amrywiaeth o gyrff, awdurdodau lleol unigol a chymdeithasau tai, cyrff cynrychioliadol, carfannau pwysu, y sector preifat, llywodraeth ganolog ac ymchwilwyr unigol. Ceir yng Nghymru gyfoeth o wybodaeth ffeithiol, a hynny yn sgil cyhoeddi Ystadegau Tai yng Nghymru gan y Cynulliad Cenedlaethol yn flynyddol, a chan fod llawer o wybodaeth ffeithiol yn cael ei chasglu mewn ymateb i ofynion perfformio a monitro. Mae llawer o'r gwaith a wneir neu a gomisiynir gan gyrff tai unigol, o ddiddordeb uniongyrchol o ran llunio a gweithredu polisi ac yn aml mae'n lleol iawn. Yn ôl yr archwiliad, cynhaliwyd yr ymchwil ddiweddaraf bwysicaf ym maes anghenion tai (yn gyffredinol ac ymysg grwpiau penodol), bodloni cwsmeriaid, darparu gwasanaethau, cwestiynau ynglŷn â strwythur a newid corfforaethol (gan gynnwys defnyddio technolegau newydd) a chanllawiau ynglŷn ag arfer da. Darganfu bod gweithgaredd ymchwil ar lefel genedlaethol wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y 1990au, ac er gwaethaf diddordebau cyffredin, ychydig iawn o dystiolaeth a gafwyd o drefniadau effeithiol ar gyfer lledaenu canlyniadau a methodolegau ymchwil.

Gallu cyfyngedig iawn sydd gan awdurdodau lleol a chyrrff lletya yng Nghymru i gynnal, neu i gomisiynu ymchwil. Mae swyddogion ymchwil ymroddedig yr un mor brin â'r adnoddau sydd ar gael i'w hariannu, boed yn arian gan y cyrff eu hunain, neu'n grantiau.


Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi unrhyw fylchau mewn ymchwil neu fecanweithiau dosbarthu. Lleisiwyd pryderon ynghylch diffyg dealltwriaeth clir o'r cyd-destun Cymreig wrth lunio a gweithredu polisiau, ac ynghylch y ffaith na chynhaliwyd asesiadau digonol o bolisiau tai a mentrau blaenorol, ac felly pryderwyd na ellid bwydo gwybodaeth o'r fath i'r broses o ddatblygu polisiau yn y dyfodol. Mynegwyd hefyd y byddai angen ar Aelodau'r Cynulliad am wybodaeth well nag sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau ynglŷn â thai. Bu pryderon penodol hefyd ynglŷn â'r angen i ddatblygu strategaeth tymor hir ar gyfer ymchwil ym maes tai i ddylanwadu ar ddatblygu strategaethau a pholisiau ledled Cymru ac y byddai angen i hwnnw gwmpasu'r farchnad breifat yn ogystal â'r sector tai cymdeithasol.

Roedd yr archwiliad yn cydnabod bod angen dirfawr am ymchwil bellach i oblygiadau dieithrwch cymdeithasol a chynaliadwyedd yng nghyd-destun tai, ac roedd yn tanlinellu nifer o feysydd lle na chafwyd ymchwil ddigonol o dan y themâu hyn. Bydd angen ymchwil fanwl ar sut i gynnal neu ddatblygu cynaliadwyedd cymdeithasol tai ac i edrych ar y ffactorau sy'n gwneud cartrefi neu ardaloedd arbennig yn ddeniadol neu'n llai dymunol. O safbwynt dieithrwch cymdeithasol bydd angen ymchwil monitro a gwerthuso manwl er mwyn asesu effeithiolrwydd strategaethau adfywio lleol. Mae'r blaenoriaethau polisi hyn yn awgrymu'r angen am ymchwil sy'n mynd y tu hwnt i'r diffiniad cyfyng o 'ymchwil tai', gan orgyffwrdd â meysydd ymchwil eraill, yn enwedig cynllunio iechyd a defnydd tir.

Bu i'r ymchwilwyr argymhell bod y Cynulliad yn ystyried sawl maes o weithgaredd ymchwil penodol. Ymysg y rhain roedd sefydlu archwiliad parhaus o deuluoedd Cymreig ynghyd â safon eu tai; gwerthuso polisiau diweddar gan gynnwys y 'Dewis i Brynu' a datblygu 'foyers'; ymchwilio i'r angen am dai, gan gynnwys amgyffrediad pobl o'r diffiniad o dai, materion yn ymwneud â symudedd a symudiadau rhwng deiliadaethau. Pwysleisiwyd hefyd yr angen i'r Cynulliad ddatblygu rhaglen o arfer da ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff lletya, wedi ei ariannu a'i gydlynu'n briodol.

Tanlinellwyd yr angen i ddatblygu ymwybyddiaeth gryfach o ymchwil ym maes tai a gynhaliwyd mewn llofydd eraill yn y Deyrnas Unedig ac i fwydo canlyniadau astudiaethau o'r fath i archwiliadau polisi yng Nghymru, ac roedd yn pwysleisio fod yn rhaid tynnu sylw'r gynulleidfa darged at ymchwil iddi fod o unrhyw werth. Teimlwyd bod y ffyrdd presennol o ddsbarthu yn anghyson ar y cyfan ac yn rhy ddibynnol ar gysylltiadau personol. Awgrymwyd ffyrdd i wella hyn, drwy ddefnydd ehangach o grynodbau ymchwil a thrwy ehangu rôl adroddiadau byrion a geir mewn cyfnodolion tai, megis Welsh Housing Quarterly, Cartref a chylchlythyrau CIH. Mae'r Rhyngwyd a Mewnrwyd y Cynulliad yn gyfle newydd i ledaenu gwybodaeth ac mae angen i'r Cynulliad ystyried sut mae'n cysylltu â chyrff lletya cysylltiedig, nid yn unig i ledaenu gwybodaeth ond i ymgynghori ar flaenoriaethau ymchwil.



Mae gwybodaeth bellach ar gael yn yr adroddiad cyflawn: [Archwiliad Ymchwil Tai yng Nghymru](#) gan Pauline Papps, Robert Smith a Tamsin Stirling. Gellir cael copïau o'r adroddiad a'r crynodeb hwn gan:

Sioned Lewis

Adran Tai ac Adnewyddu Cymunedol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 5NQ
Ffôn: (02920) 823353
E-bost: Sioned.Lewis@Wales.gsi.gov.uk

Tamsin Stirling

16 Hinton St
Splott
Caerdydd CF24 2EU
Ffôn: (02920) 450650
E-bost: Tamsin.Stirling@dial.pipex.com

Robert Smith neu Pauline Papps

Canolfan Rheoli a Datblygu Tai
Adran Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol
Prifysgol Caerdydd
Adeilad Morgannwg
King Edwrad VII Drive
Caerdydd CF10 3WA
Ffôn: (02920) 876086 neu 876014
E-bost: smithr2@cf.ac.uk neu Pappsd@cf.ac.uk